Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | **Bwrdd Plismona** |
| Lleoliad: | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| Dyddiad: | **9 Mawrth 2016** |
| Amser: | **09:30 – 10:50** |

**CRYNODEB CYHOEDDUS**

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Simon Powell (PGC)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H)<br>Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB)<br>Marc Jones, Uwch Reolwr Gweithredol TGCh (MJ) *[rhan o'r cyfarfod]*<br>Catherine Davies, Rheolwr Prosiect (CD) *[rhan o'r cyfarfod]*<br>Alison Perry, Cyfarwyddwr Comisiynu, SCHTh (ALP) *[rhan o'r cyfarfod]* |
| **Ymddiheuriadau:** | Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (CC) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 02/03/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 575** | **MMS i symud materion ystadau yn eu blaen o ran Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhyw ar frys** | **Cwblhawyd** |
| **PB 576** | **DGHTh a'r Cyfarwyddwr Comisiynu i nodi'r cysylltiad rhwng y prosiect taith dioddefydd ac adolygiad o wasanaethau ar y cyd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 577** | **PSA i ddarparu cymhariaeth o ddefnydd o'r cynllun Oedolion Priodol ag ardaloedd Heddlu eraill** | **Cwblhawyd** |
| **PB 578** | **Y PG i ddilyn ymateb gan yr adran arfau saethu mewn perthynas â chanllawiau ar gyfer cwblhau ceisiadau am drwyddedau arfau saethu** | **Cwblhawyd – cynhwysir yn adroddiad 09/03/16** |
| **PB 579** | **MMS i symud materion ystadau yn eu blaen o ran Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhyw ar frys** | **Cwblhawyd** |

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 09/03/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 097** | **Cymeradwyodd y CHTh symud ymlaen i dendro ar gyfer caffael datrysiad camerâu fideo a wisgir ar y corff** | **MJ** |
| **PB 099** | **Cynnal y prosiect ymgysylltu â phobl ifainc dros yr haf (a elwir yn Ysgogi Ein Hieuenctid yn 2015) eto a SCHTh i ofyn am ddyfynbrisiau sy'n seiliedig ar ofyniad prosiect clir** | **ALP** |
| **PB 100** | **Cymeradwyodd y CHTh estyn y cytundeb Oedolion Priodol gyda Hafal, drwy dendr cydweithredol a arweinir gan Heddlu De Cymru** | **PSA** |
| **PB 101** | **Gwneud cyfraniad o £12,417 i Swyddfa Crimestoppers ar gyfer 2016-17** | **PSA** |

Agorodd y CHTh y cyfarfod a chroesawodd MJ a CD.

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth a materion yn codi**

PB 576 – Roedd hi'n dda gan y CHTh adrodd bod y materion ystadau a ThG o ran y canolfannau SARC bellach wedi'u datrys a diolchodd i'r rhai a oedd yn gyfrifol.

PB 577 – Cadarnhawyd bod yr adolygiad o wasanaethau ar y cyd â'r BCTLl a'r prosiect taith dioddefydd gyfystyr â'i gilydd.

**Cyflwyniad ar y Cynllun Peilot Camerâu Fideo a Wisgir ar y Corff**

Rhoddodd MJ adborth ar y cynllun peilot. Dywedodd MJ bod fframwaith cenedlaethol yn cyflwyno nifer o becynnau i fodloni gofynion HDP. Roedd adborth cychwynnol gan aelodau o'r cyhoedd yn gadarnhaol tuag at swyddogion yn gwisgo camerâu. Adroddwyd bod rhai pryderon wedi'u codi gan swyddogion cyn y treial oherwydd tybiwyd mai monitro ymddygiad swyddogion oedd y diben. Yn ystod y treial, mae canfyddiadau wedi newid wrth i swyddogion groesawu'r camerâu fel ffynhonnell tystiolaeth a chefnogaeth, yn arbennig o ran negyddu cwynion. Roedd swyddogion criw sengl yn dweud eu bod yn fwy hyderus yn mynd i ddigwyddiadau ar ben eu hunain.

Trafodwyd y cyllid sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r camerâu ledled yr heddlu, gyda'r PSA yn cadarnhau bod £400,000 wedi'i nodi ar gyfer gwariant cyfalaf blwyddyn un i brynu'r camerâu. Argymhellodd  MJ Dewis 3, sef y byddai pob swyddog heddlu a SCCH yn cael ei

uned bersonol ei hun. Byddai hyn yn arwain at brynu 800 o unedau. Teimlwyd y byddai hyn yn annog cyfrifoldeb personol, ac y byddai'n uchafu'r cyfleoedd recordio gan na fyddai oedi o ran trosglwyddo rhwng sifftiau pe bai gan bob swyddog ei gamera ei hun. Gofynnodd y CHTh os fyddai Cwnstabliaid Gwirfoddol (CG) yn cael camerâu hefyd. Dywedwyd y byddai cronfa o gamerâu'n medru cael eu caffael ar gyfer eu defnyddio gan Gwnstabliaid Gwirfoddol, yn unol â'r sefyllfa o ran dyfeisiau symudol.

Gofynnodd y CHTh pa un ai a oedd heddluoedd eraill yn defnyddio'r camerâu hyn. Dywedodd MJ y byddai fframwaith caffael a arweinir gan Heddlu Dwyrain Orllewin Lloegr yn cael ei ddefnyddio gan HDP. Adroddwyd bod Gwent yn defnyddio rhai camerâu, ond nid oedd De Cymru'n eu defnyddio. Dywedodd MJ bod ychydig iawn o faterion technegol yn codi o'r peilot, gan dynnu sylw at mor hawdd ydynt i'w defnyddio.

Gofynnodd y PSA am ragor o wybodaeth ar y trefniadau ar gyfer glanhau a rheoli data. Eglurodd MJ bod datrysiadau storio'n cael eu hystyried ar gyfer fideos sydd wedi'u huwchlwytho, gan nodi y byddai'r tîm Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu'n gyfrifol am gadw a chael gwared ar raglenni. Ceisiodd y CHTh sicrwydd y gellir rhannu'r dystiolaeth â Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer dibenion treialon. Cadarnhaodd MJ y gellir gwneud hyn ar yr amod bod rhyngwynebau priodol ar gael, a bod hyn wedi'i wneud yn y peilot.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y CHTh symud ymlaen i dendro ar gyfer caffael datrysiad camerâu fideo a wisgir ar y corff**

**Cam Gweithredu: MJ i ddarparu manyleb tendr ar gyfer y prosiect camerâu fideo a wisgir ar y corff i aelodau'r Bwrdd Plismona cyn cyhoeddi**

Gadawodd CD y cyfarfod.

**Diweddariad y Prif Gwnstabl Cynorthwyol**

Darparodd y PGC drosolwg o ddigwyddiadau gweithredol allweddol, gan gynnwys gwrthdrawiad traffig y ffyrdd angheuol a oedd yn cynnwys un cerbyd; ymgyrch amlasiantaeth gyda'r Uned Plismona'r Ffyrdd yn Sir Benfro a arweiniodd at nifer o droseddau traffig y ffyrdd yn cael eu hadnabod a'u trin; ymgyrch Darwen yn Aberhonddu a oedd wedi stopio 3 cherbyd a oedd yn teithio'n gynt na 100mya, ac ymgyrch ar y cyd â Gorllewin Mercia.

Roedd dau unigolyn wedi'u harestio ar ôl i SCCH yn y Drenewydd ddefnyddio gwybodaeth leol ac ymgysylltu â'r gymuned i adnabod unigolyn bregus a oedd wedi dioddef trosedd. Roedd swyddogion wedi dod o hyd i berson bregus yn Sir Benfro yn dilyn chwiliad.

Adroddodd y PGC fod 5 swyddog ac aelod staff wedi'u hatal o'r gwaith ar hyn o bryd.

## Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Diolchodd y CHTh i'r SCCTh a oedd wedi bod yn gwmni iddo yn ystod ei ddiwrnod Eich Llais diweddar yn Llanfair-ym-Muallt. Cododd y CHTh ddau ymholiad gan aelodau o'r cyhoedd, a byddai'r Heddlu'n ymateb ar ôl y cyfarfod.

Holodd y CHTh pam oedd oedi o ran lansio'r cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned. Dywedodd y PGC bod y cydweithredu â Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â'r broses weinyddol yn cael ei ddatblygu a byddai'n cael ei ddatrys ymhen rhai wythnosau. Anogodd y CHTh am i'r mater gael ei symud yn ei flaen er mwyn lansio'r cynlluniau mor fuan â phosibl.

## Diweddariad y Prif Swyddog Ariannol

Roedd y PSA a'r CA wedi cwrdd â Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) i gytuno ar gynllun ar gyfer archwiliad diwedd blwyddyn 2015/16. Nodwyd pryderon mewn perthynas ag amseroldeb data a ddarparwyd gan Heddlu De Cymru. Nid oedd SAC yn medru cadarnhau'r amserlen ar gyfer cwblhau hyn. Roedd pryderon hefyd wedi codi mewn perthynas â dibyniaeth SAC ar adroddiadau AHEM ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd er mwyn ffurfio barn am werth am arian a ddarperir gan HDP. Gofynnodd y PSA a'r CC am ymagweddau amgen i arddangos bod yr hyn sydd wedi'i wneud yn cael ei ystyried gan nad oedd rhai adroddiadau AHEM yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol yn gywir. Amcangyfrifwyd y ffi ar gyfer yr archwiliad diwedd blwyddyn, ac mae'r gost yr un fath â llynedd.

Byddai newidiadau o ran rheoli trysorlys yn cael eu symud ymlaen gan y PSA.

## Diweddariad y Cyfarwyddwr Adnoddau

Dywedodd y CA bod y rhaglen Gwario'n Ddoeth yn mynd rhagddi'n dda. Roedd hysbysiadau am rolau trosglwyddo o swyddogion i staff fel rhan o'r agenda moderneiddio'r gweithlu ar fin digwydd. Sicrhaodd y CA y byddai nifer y swyddogion heddlu'n cael eu cynnal yn ystod y broses. Roedd proses tri cham ar waith ar gyfer ystyried lleoli adnoddau yn ôl y galw, a byddai'n cael ei adolygu ym mis Awst. Gofynnodd y CHTh am gael gweld y proffil galw diweddar. Adroddodd MMS bod y proffil ar waith. Dywedodd y CHTh y dylai'r proffil gael ei adnewyddu'n rheolaidd, a gan hynny, ar gael i'w weld ar unrhyw adeg. Nodwyd bod cam gweithredu wedi'i godi'n flaenorol mewn cyfarfod o'r Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu. Cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei ddatrys ar ôl y cyfarfod.

Holodd y PSA ynghylch yr arbedion o £4 miliwn a gynigiwyd yn wreiddiol trwy'r rhaglen Gwario'n Ddoeth cyn recriwtio mwy o swyddogion i ddod â ffigurau yn ôl i'r nifer gofynnol. Roedd hyn yn amodol ar gymeradwyaeth y CHTh yn dilyn cadarnhad o'r

adolygiad ariannu fformiwla. Eglurodd y CHTh bod y gymeradwyaeth hon wedi'i hatal. Cadarnhaodd y CA y byddai nifer y swyddogion yn lleihau gan hynny wrth i swyddi Rhingylliaid leihau fel rhan o'r cynllun Gwario'n Ddoeth.

Adroddodd y CA bod trafodaethau â Heddlu De Cymru mewn perthynas â darpariaeth dalfeydd ar waith.

Gadawodd MJ y cyfarfod. Cyrhaeddodd ALP.

## Cynnig atal o ran ieuenctid

Rhoddodd ALP ddiweddariad ar drafodaethau blaenorol; byddai Swyddogion Cyswllt Ysgolion (SCY) yn cael eu cynnwys mewn Timoedd Plismona Bro (TPB) a Rhingylliaid TPB fyddai eu rheolwyr llinell o 1 Ebrill 2016. Mewn perthynas â gwaith atal troseddau ieuenctid, roedd Cytundebau Lefel Gwasanaeth wedi'u llunio rhwng SCHTh a'r Timoedd Troseddau Ieuenctid sy'n nodi'r amcanion, egwyddorion, a'r canlyniadau a ddisgwylir.

Ailadroddwyd adborth y Comisiynydd mewn perthynas â'r prosiect Ysgogi Ein Hieuenctid, gan gynnwys: meini prawf tynnach ar gyfer cynnwys. cysylltiad ehangach â phartneriaid (yn arbennig cynlluniau cadetiaid a thrydydd sector), fformat mwy heriol, gwell hirhoedledd o ran cysylltiadau â rhaglenni gweithgarwch cyfredol ehangach, a pharhau â themâu o fewn cynlluniau gwersi/cyswllt parhaus â phobl ifainc a sicrhau gwerth am arian. Cyflwynwyd papur a oedd yn amlinellu newidiadau arfaethedig yr heddlu i'r prosiect Ysgogi Ein Hieuenctid ar gyfer 2016 yn seiliedig ar yr argymhellion hyn. Cytunodd yr aelodau bwrdd fod y prosiect yn un werth chweil ac yn cynnig cyfle gwerthfawr i gyrraedd pobl ifainc sydd mewn perygl o droseddu. Cytunodd y CHTh y byddai prosiect ar gyfer ymgysylltu ag ieuenctid, a gynhelir yn ystod yr haf, yn cael ei ddatblygu yn unol â'r meini prawf a nodir, a'r gyllideb yw £12,000 ar y mwyaf.

**Cam Gweithredu: ALP i gynhyrchu gofyniad a chynllun ar gyfer caffael prosiect ymgysylltu â phobl ifainc**

**Penderfyniad: Cynnal y prosiect ymgysylltu â phobl ifainc dros yr haf (a elwir yn Ysgogi Ein Hieuenctid yn 2015) eto a SCHTh i ofyn am ddyfynbrisiau sy'n seiliedig ar ofyniad prosiect clir**

## Cytundeb Oedolion Priodol

Rhoddodd ALP gefndir i'r adroddiad a ddarparwyd, gan ddweud y ceisir cymeradwyaeth ar gyfer adnewyddu cytundeb o dan fframwaith a reolir gan Heddlu De Cymru. Nododd yr adroddiad y rhesymau dros y cynnydd sylweddol o ran costau gwirioneddol o'r amcanbris gwreiddiol a ddarparwyd ar gyfer 2015/16. Eglurwyd y costau disgwyliedig a nodwyd mecanweithiau priodol i sicrhau y byddai'r gyllideb yn cael ei monitro'n agos.

Nodwyd fod HDP yn defnyddio'r gwasanaeth yn fwy na Heddlu De Cymru fesul nifer y carcharorion, a bod teulu a ffrindiau'n cael eu ceisio yn y lle cyntaf cyn gofyn am gynrychiolwyr o'r rhaglen Oedolion Priodol.

Cytunwyd y byddai cyllideb ar gyfer blynyddoedd i ddod yn cael ei nodi'n briodol, a bydd tystiolaeth o sut a pham y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio'n cael ei adrodd i'r Bwrdd Plismona mewn 6 mis.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y CHTh estyn y cytundeb Oedolion Priodol gyda Hafal, drwy dendr cydweithredol a arweinir gan Heddlu De Cymru**

**Cam Gweithredu: PSA i ddarparu data meincnod o'r cynllun Oedolion Priodol, gan gymharu defnydd HDP â heddluoedd eraill**

**Action: Adolygu defnydd o'r cynllun Oedolion Priodol a chostau cysylltiedig mewn 6 mis**

**Unrhyw Fusnes Arall**

***Gohebiaeth a dderbyniwyd***

*Crimestoppers*

Gofynnodd y CHTh am adborth ar gais gan Crimestoppers am gyfraniad ariannol. Dywedodd y PGC fod 317 o alwadau i'r Heddlu wedi dod trwy Crimestoppers. Cytunodd y CHTh i barhau â chyfraniad HDP. Cytunodd y PSA i nodi'r gyllideb briodol ar gyfer y cyfraniad.

**Penderfyniad: Gwneud cyfraniad o £12,417 i Swyddfa Crimestoppers ar gyfer 2016-17**

**Cam Gweithredu: PSA i adnabod cyllideb briodol ar gyfer y cyfraniad i swyddfa Crimestoppers**

*Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu*

Tynnodd y CHTh sylw aelodau at lythyr a dderbyniwyd gan Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu mewn perthynas â'r rhaglen platfform cyffredin plismona a'r system cyfiawnder troseddol. Nodwyd y llythyr a chytunwyd y byddai'r mater yn cael ei ystyried o fewn trafodaethau TG ehangach.

***Cydlynu Gweinyddiaeth Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)***

Cododd ALP argymhellion o Fywydau Diogel mewn perthynas â nifer y gweinyddwyr / cydlynwyr sydd angen ar gyfer MARAC ledled HDP. Nodwyd fod un o'r 4 gweinyddydd a argymhellir mewn swydd. Dywedodd y DBG fod hyn yn cael ei ystyried fel rhan o adolygiad adnoddau ledled yr heddlu.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i gadarnhau dyddiad ar gyfer adolygiad adnoddau Diogelu Pobl Fregus, gan gynnwys darpariaeth gweinyddiaeth MARAC, ac adrodd ar hyn mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona**

Daeth y CHTh â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i'r PGC Simon Powell am ei wasanaeth gyda'r heddlu a dymunodd yn dda iddo ar gyfer ei ymddeoliad.

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 02/03/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 580** | **MJ i ddarparu manyleb tendr ar gyfer y prosiect camerâu fideo a wisgir ar y corff i aelodau'r Bwrdd Plismona cyn cyhoeddi** | **MJ** |
| **PB 581** | **ALP i gynhyrchu gofyniad a chynllun ar gyfer caffael prosiect ymgysylltu â phobl ifainc** | **ALP** |
| **PB 582** | **PSA i ddarparu data meincnod o'r cynllun Oedolion Priodol, gan gymharu defnydd HDP â heddluoedd eraill** | **PSA** |
| **PB 583** | **Adolygu defnydd o'r cynllun Oedolion Priodol a chostau cysylltiedig mewn 6 mis** | **PSA** |
| **PB 584** | **PSA i adnabod cyllideb briodol ar gyfer y cyfraniad i swyddfa Crimestoppers** | **PSA** |
| **PB 585** | **Yr Heddlu i gadarnhau dyddiad ar gyfer adolygiad adnoddau Diogelu Pobl Fregus, gan gynnwys darpariaeth gweinyddiaeth MARAC, ac adrodd ar hyn mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona** | **MMS** |